OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 1673 (Cy. 162)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Chweched Dosbarth Iâl a Chorfforaeth Addysg Bellach Coleg Glannau Dyfrdwy (Diddymu) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *3 Gorffennaf 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *5 Gorffennaf 2013* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Awst 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 27C o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**1**).

Yn unol ag adran 27C(2) o'r Ddeddf honno, mae Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Cambria ("*Coleg Cambria Further Education Corporation*")(**2**) wedi cydsynio i drosglwyddiad eiddo, hawliau a rhwymedigaethau Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Chweched Dosbarth Iâl ("*Yale Sixth Form College Further Education Corporation*")(**3**) a Chorfforaeth Addysg Bellach Coleg Glannau Dyfrdwy ("*Deeside College Further Education Corporation"*)(**4**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Chorfforaeth Addysg Bellach Coleg Chweched Dosbarth Iâl ("*Yale Sixth Form College Further Education Corporation*") a Chorfforaeth Addysg Bellach Coleg Glannau Dyfrdwy ("*Deeside College Further Education Corporation*"), yn unol ag adran 27C(6) o'r Ddeddf honno.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Chweched Dosbarth Iâl a Chorfforaeth Addysg Bellach Coleg Glannau Dyfrdwy (Diddymu) 2013 a daw i rym ar 1 Awst 2013.

(**1**) 1992 p.13; rhoddwyd adran 27C yn lle adran 27, fel y'i deddfwyd yn wreiddiol, gan Ddeddf Addysg 2011, adran 49, Atodlen 12, paragraffau 1 a 7.
(**2**) A sefydlwyd gan Orchymyn Coleg Cambria (Corffori) 2013 (O.S. 2013/374 (Cy. 46)).
(**3**) A sefydlwyd gan Orchymyn Addysg (Corfforaethau Addysg Bellach) 1992 (O.S. 1992/2097). Adwaenir y Coleg yn gyffredinol fel "Coleg Iâl" neu "Coleg Iâl, Wrecsam".
(**4**) Sefydlwyd Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Glannau Dyfrdwy gan Orchymyn Addysg (Corfforaethau Addysg Bellach) 1993 (O.S. 1993/97).

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**5**); ac

ystyr "yr Hen Gorfforaethau" ("*the Old Corporations*") yw Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Chweched Dosbarth Iâl ("*Yale Sixth Form College Further Education Corporation*") a Chorfforaeth Addysg Bellach Coleg Glannau Dyfrdwy ("*Deeside College Further Education Corporation*").

**Diddymu a throsglwyddo**

**3.** Ar 1 Awst 2013 mae pob un o'r Hen Gorfforaethau wedi eu diddymu ac mae eu holl eiddo, hawliau a rhwymedigaethau wedi eu trosglwyddo yn unol ag adran 27C(2) o'r Ddeddf i Gorfforaeth Addysg Bellach Coleg Cambria ("*Coleg Cambria Further Education Corporation*"), sef corff corfforaethol sydd wedi ei sefydlu at ddibenion sy'n cynnwys darparu cyfleusterau neu wasanaethau addysgol.

**Trosglwyddo staff**

**4.** Mae adran 26(2), (3) a (4) o'r Ddeddf yn gymwys i unrhyw berson a gyflogir gan yr Hen Gorfforaethau yn union cyn 1 Awst 2013 fel petai'r cyfeiriadau yn yr adran honno—

(a) at berson y mae'r adran honno yn gymwys iddo yn gyfeiriadau at berson sy'n gyflogedig fel hynny;

(b) at y dyddiad gweithredol yn gyfeiriadau at 1 Awst 2013;

(c) at y trosglwyddwr yn gyfeiriadau at unrhyw un o'r Hen Gorfforaethau sy'n cyflogi'r person yn union cyn 1 Awst 2013; a

(d) at y gorfforaeth yn gyfeiriadau at Gorfforaeth Addysg Bellach Coleg Cambria ("*Coleg Cambria Further Education Corporation*").

*Huw Lewis*
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

3 Gorffennaf 2013

(**5**) 1992 p.13.

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu'r corfforaethau addysg bellach a sefydlwyd i redeg Coleg Chweched Dosbarth Iâl a Choleg Glannau Dyfrdwy a hynny'n effeithiol o 1 Awst 2013 ymlaen. Mae'n darparu ar gyfer trosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau pob corfforaeth i Gorfforaeth Addysg Bellach Coleg Cambria ("*Coleg Cambria Further Education Corporation*") ac mae'n diogelu hawliau cyflogaeth cyflogeion y corfforaethau a ddiddymwyd drwy gymhwyso, gydag addasiadau, adran 26(2) i (4) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ("y Ddeddf").

Effaith cymhwyso adran 26(2) i (4) o'r Ddeddf yw cadw contractau cyflogaeth cyflogeion y corfforaethau a ddiddymwyd fel petai'r contractau cyflogaeth wedi cael eu gwneud yn wreiddiol rhwng y cyflogeion hynny a Chorfforaeth Addysg Bellach Coleg Cambria ("*Coleg Cambria Further Education Corporation*"). Daw cyflogeion y corfforaethau a ddiddymwyd yn gyflogeion Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Cambria ("*Coleg Cambria Further Education Corporation*") o 1 Awst 2013 ymlaen.

Ni luniwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer yr offeryn hwn, gan na fydd yn effeithio ar gostau busnes.